# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 15 Mai 2017** |
| Amser: | **12.30 – 14.05** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(5)2017(5)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Caroline Jones AC**<br>**Adam Price AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol, Pennaeth Trawsnewid Strategol**<br>**Natalie Drury-Styles, Pennaeth Lleoliadau Seneddol a Gwasanaethau Ymwelwyr**<br>**Al Davies, Uwch-reolwr Cysylltiadau Rhyngwladol a Phrotocol**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 1.2 Datganiad o fuddiant

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

## 1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion 5 Ebrill yn gofnod cywir.

# 2 Diwallu ein Hanghenion o ran Llety yn y Dyfodol

Trafododd y Comisiynwyr y wybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i ymholiadau a godwyd ganddynt yn y cyfarfod blaenorol. Derbyniwyd yr awgrymiadau a wnaed, a nodwyd meysydd ble y byddent yn hoffi cael rhagor o fanylion.

# 3 Rhaglen Diwygio'r Cynulliad

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Comisiynwyr am ganlyniadau eu hymgynghoriad ar newid enw'r Cynulliad. Trafodwyd nifer o opsiynau ar gyfer y camau nesaf gan gynnwys materion ymarferol ac ariannol cysylltiedig a materion yn ymwneud ag enw da.

Cytunodd y Comisiynwyr i ddychwelyd at y mater yn eu cyfarfod nesaf, ar ôl rhoi ystyriaeth bellach i'r berthynas â chwmpas y cynigion deddfwriaethol y gallai'r Comisiwn ddymuno ei dilyn yn ystod tymor y Cynulliad hwn o ganlyniad i ddatganoli pwerau newydd o dan Ddeddf Cymru 2017 .

# 4 Gweithgarwch ar ystâd y Cynulliad

Trafododd y Comisiynwyr gynigion i newid y modd y caiff gweithgarwch ar yr ystâd ei reoli a'i flaenoriaethu, â'r nod o sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Comisiwn yn well o ran ymgysylltu, gan alluogi'r ystâd, a'r Senedd yn arbennig, i gael ei ddefnyddio'n fwy

pwrpasol ac felly i ddod yn adnodd allweddol ar gyfer hyrwyddo ymgysylltiad â'r Cynulliad ac annog cynulleidfa fwy amrywiol i'n hystâd.

Cydnabu'r Comisiynwyr yr heriau sydd ynghlwm wrth y dull presennol o ddefnyddio'r ystâd, ac roeddent o blaid newid i ddull mwy strategol o ddefnyddio'r ystâd mewn modd pwrpasol ac effeithiol. Nodwyd rhai anawsterau penodol o'u gwybodaeth a'u profiad eu hunain, ac awgrymwyd nifer o ddulliau a allai fod yn ddefnyddiol yn y broses o reoli gweithgarwch yn fwy effeithiol. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i baratoi canllawiau i gefnogi'r newid.

## 5 Fframwaith ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol y Cynulliad yn ystod y Pumed Cynulliad

Trafododd y Comisiynwyr bapur a oedd yn nodi fframwaith drafft ar gyfer datblygu rhaglen ystyrlon a chydgysylltiedig o waith rhyngwladol ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Roeddent yn cefnogi bwriad y fframwaith, i leoli'r Cynulliad ar y llwyfan rhyngwladol fel deddfwrfa fach ond yn un wahanol, arloesol a blaengar, a chytunwyd y dylai ymgysylltu rhyngwladol y Comisiwn gael ei gefnogi trwy ddiben clir. Yn arbennig, tynnodd y Comisiynwyr sylw at ba mor bwysig yw edrych at allan a rhannu'r hyn a wnawn, a nodi meysydd eraill ble y gallem ddatblygu rôl er mwyn manteisio ar gyfleoedd ychwanegol.

Bydd cynllun cyflawni yn cael ei baratoi, gan roi ystyriaeth i safbwyntiau'r Comisiwn.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Cofnodion ACARAC

Nodwyd cofnodion cyfarfod ACARAC ar 20 Mawrth.

## 7 Unrhyw fater arall

Gofynnodd y Comisiynwyr am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â diogelwch ar ystâd y Cynulliad.